

CYNGOR BRO LLANFAIRPWLL
Cofnodion Cyfarfod
Gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Llanfairpwll –
22ain Chwefror 2011

Presennol: Cynghorwyr John Roberts (Cadeirydd), Alun Mummery, Alun Jones, Gwynfor Parry, Alun Griffith, Bethan Jones, Eifion Jones, John Arwel Edwards, Malcolm Rowlands, Gareth C. Jones
Cynghorwyr Sirol J. P. Williams, Jim Evans.
Anwen Jones (Clerc).

1. Ymddiheuriadau: Arfon Williams, Hanna Huws, Richard Eames, Ifan Bebb

2. Datganiadau Diddordeb Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad diddordeb

3. Materion y Cyngor Sir

Derbyniwyd adroddiad gan y Cynghorydd Sirol J. P. Williams

Bu trafodaethau yn y Cyngor Sir ynglŷn â sut bydd y Cyngor yn symud ymlaen a hefyd ar y gyllideb. Disgwylir penderfyniad o fewn yr wythnos ar y dreth cymuned.

4. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Ionawr 25ain 2011

Cyflwynwyd y cofnodion. Cynigwyd gan A. Jones ac eiliwyd gan G. Parry.

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

5. Materion yn codi

5.3 Pennaeth newydd Gwasanaeth Tai bellach yn ei swydd. Y Clerc i gysylltu ynglŷn â'r ffens rhwng y Clwb Bowlio a Trem Eryri.

10.2 Giât ar lwybr troed lon Dyfnia - y Clerc i wneud ymholiadau.

7.2.6. Dwr yn y goedwig ger y gors - nodwyd bod y dŵr yn y goedwig wedi lleihau. Y Clerc wedi cysylltu â'r Bwrdd Iechyd ynglyn a'r mater.

.2.8. Plotiau blodau yn y maes parcio -. Y Clerc wedi gofyn i Richard Hughes ddwywaith ond nid yw'r gwaith wedi'i wneud. Awgrymodd G. Parry bod y Cyngor yn gofyn i Susannah o Pentraeth ymgymryd â'r gwaith. Cytunwyd i hyn.

7.3. Pafiliwn y Gors – bydd angen cael tystysgrif o'r gwaith trydanol sydd wedi'i wneud yn y pafiliwn.

9.2.4. Arwyddion dim cwn yn y gors wedi'u tynnu lawr unwaith eto. A. Jones i osod rhai newydd pan fydd y nosweithiau'n goleuo.

11. Cyllideb 2011/12. A. Mummery wedi cysylltu gydag aelodau cynghorau eraill. Ymddengys bod rhai cynghorau yn cario balansau drosodd yn flynyddol. Y Pwyllgor Cyllid i edrych ar y rheolau'n fanwl.

12. Ceisiadau Cynllunio - Nodwyd bod dyddiad cau i ymateb i rai ceisiadau cynllunio yn mynd heibio cyn i'r Cyngor llawn gyfarfod. Penderfynwyd caniatâu'r Cadeirydd a'r Is Gadeirydd ymateb ar ran y Cyngor Bro os bu'r angen.

15.5. Safle We – Mae A. Jones a J.A. Edwards wedi mynychu tri sesiwn hyfforddiant ar ddefnydd y we. Pan fyddent wedi cwblhau'r cwrs byddant yn hyfforddi gweddill yr aelodau.

6. Cofnodion Pwyllgor y Fynwent 8fed Chwefror 2011

Cyflwynwyd cofnodion, cynigwyd gan G. Parry ac eilwyd gan J. Roberts. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

7. Materion yn codi

3.3 Yr Hysbysfwrdd – wedi'i atgyweirio.

3.4.4. Y cae ger y fynwent – y Clerc angen diweddariad ar y sefyllfa gan Mike Barton, Cyngor Sir.

4. Ffioedd – penderfynwyd peidio codi'r ffioedd am y flwyddyn 2011/12.

8. Cofnodion Pwyllgor Neuadd Goffa 8fed Chwefror 2011

Cyflwynwyd y cofnodion, cynigwyd gan J.Roberts ac eilwyd gan A. Jones. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

9. Ceisiadau Cynllunio – Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau.

10. Cynlluniau Neuadd Goffa

Gofynnwyd i'r aelodau edrych ar y cynlluniau ac awgrymu gwelliannau cyn gwneud cais ffurfiol am arian grant i adnewyddu'r neuadd.

Awgrymwyd lleihau ar y nifer toiledau er mwyn gwneud lle ar gyfer swyddfa.

Edrych hefyd y posibilrwydd o 'solar panels' ar y to.

11. Cyfrifon Mis Chwefror 2011

Cyflwynwyd rhestr taliadau a derbyniadau mis Chwefror. Cynigwyd gan A. Mummery ac eilwyd gan A. Griffith. Derbyniwyd y cyfrifon a chytunwyd i'r taliadau.

12. Gohebiaeth

a) Llythyr o ddiolch gan Eisteddfod Môn Bryngwran am y rhodd o £25.00

b) Hysbyseb o gyfarfod blynyddol y Clwb Bowlio.

c) Llythyr gan CSYM yn cadarnhau bod y maes parcio newydd ger Ty'n Rhos wedi'i gwblhau.

13. Unrhyw Fater Arall

1. Polyn metel o flaen y cwt tractor wedi'i ddwyn. Y Clerc i weithredu fel mater o frys oherwydd iechyd a diogelwch.

2. Blwch Post Lôn Refail - y Clerc i roi rhif ffôn y Post Brenhinol i'r Cyngorydd J.P. Williams ddilyn y mater i fyny. Nodwyd bod Ieuan Wyn Jones AS wedi cysylltu â'r Post Brenhinol ynglyn a hyn ond heb gael ymateb.

3. CSYM a Menter Môn - adroddwyd bod arian gwelliannau ar gyfer pentrefi ar gael. Gofynnwyd i'r aelodau feddwl am syniadau ar gyfer gwneud cais.
4. I. Bebb wedi methu cael cofrestru yn y ddeintyddfa newydd fel claf Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Nodwyd bod y ddeintyddfa wedi hysbysebu bod lleoedd gyda dyddiad cau am geisiadau. Penderfynwyd nad oedd yn addas i'r Cyngor Bro daro sylw ar y mater yma.

Dyddiad Cyfarfod Nesaf

Nos Fawrth 29ain Mawrth 2011 am 7.00 yn y Neuadd Goffa.